SWYDD DDISGRIFIAD: SWYDDOG DATBLYGU 'BWRLWM' (LLANYMDDYFRI A'R ARDAL)

ORIAU: 32 yr wythnos (ar amodau 4 diwrnod yr wythnos).
CYFLOG: £31,550 p.a. (£28,921 am gyfnod y prosiect, 11 mis)
TERMAU'R GYFLOGAETH: Cytundeb cyfnod penodol tan fis Medi 2024 (gyda phosibiliad i ddatblygu'r swydd yn un barhaol, yn ddibynnol ar gronfeydd arian ychwanegol ar ddiwedd cyfnod y prosiect)
DYDDIAD CYCHWYN Y SWYDD: 1af o Dachwedd 2023 (neu cyn hynny os yn bosib).
LLEOLIAD: Llanymddyfri, ardal Dinefwr neu o gartref o fewn i Sir Gâr (noder - yn rhan o'r swydd mi fydd yn ofynnol i wario llawer o amser yn rhyngweithio â chymunedau yn ac o gwmpas Llanymddyfri ac ardal Dinefwr). Mi fydd yn ofynnol i weithio o leiaf 1 diwrnod yr wythnos o Lanymddyfri.
YN GYFRIFOL AM: Datblygu amserlen a digwyddiadau prosiect 'Bwrlwm', sef helpu sefydlu prosiect ynni cymunedol yn yr ardal ynghyd a chyfres o weithgareddau cysylltiedig i godi ymwybyddiaeth o faterion hinsawdd.
RHEOLWR LLINELL: Cydlynydd Ynni Sir Gâr
YN ADRODD YN FISOL I: Bwrdd Ynni Sir Gâr a Chriw Amgylchedd Llanymddyfri (CALl)

CEFNDIR

Mae Ynni Sir Gâr yn Fenter Budd Cymunedol sy'n gweithio gyda chymunedau er mwyn lleihau costau ynni, hybu effeithlonrwydd ynni, taclo tlodi tanwydd, cynhyrchu ynni adnewyddadwy glân, gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan sy'n cael eu rheoli'n lleol ac sydd â pherchnogaeth leol, a chadw elw a swyddi yn lleol.

Mae Ynni Sir Gâr yn gweithio ar y cyd gyda chymunedau, mudiadau, sefydliadau a busnesau o fewn a thu hwnt y sir i drafod a thaclo materion a datrysiad lleol i newid hinsawdd, o'r gwaelod i fyny. Mae Ynni Sir Gâr yn anelu i arfogi cymunedau â sgiliau a gwybodaeth mewn ystod fawr o bynciau cynaliadwyedd er mwyn cymryd perchnogaeth o'r agenda newid hinsawdd. Ased mwyaf Ynni Sir Gâr yw ei thyrbin gwynt 500kW cymunedol yn Salem, Llandeilo. Cafwyd y tyrbin ei hariannu trwy gyfranddaliadau cymunedol, ac mae'r buddion sydd yn dod o'r tyrbin wedi cyfrannu tuag at fewnosod technoleg ynni gwyrdd, creu cronfeydd cymunedol a chyfrannu tuag at greu swyddi o fewn y fenter.

DISGRIFIAD PROSIECT

Mae Bwrlwm yn brosiect wedi ei leoli yn Llanymddyfri ac yn cynnwys cymunedau o fewn 10milltir o'r dref (gan gynnwys Cynghordy, Rhandirmwyn, Llanwrda, Llangadog, Llansadwrn, Myddfai ymysg eraill). Arweinir y prosiect gan Ynni Sir Gâr sydd yn cydweithio a grŵp cymunedol Criw Amgylchedd Llanymddyfri er mwyn datblygu a rhedeg Bwrlwm.

Pwrpas prosiect Bwrlwm yw creu cysyniad o sut gall Llanymddyfri fod yn dref afaelgar, wydn ac yn dref werdd. Dref lle mae ynni yn cael ei greu a'i ddefnyddio'n lleol, ble gellir derbyn cyngor am effeithlonrwydd a chynhyrchu ynni yn ddiduedd ac yn ddibynadwy o fewn y gymuned, ble anogir a chefnogir effeithlonrwydd ynni i gartrefi a busnesau lleol, a lle mae cysylltiadau i drafnidiaeth werdd ar gael o fewn y dref a'r ardal leol. Bydd y gweithgarwch yma sydd yn rhan o brosiect Bwrlwm yn plethu ac yn cefnogi prosiectau economi gylchol sydd eisoes ar waith yn yr ardal. Bydd y prosiect yn annog a chefnogi gweithredoedd er budd cynaliadwyedd a gweithredu hinsawdd yn y dref.

Un o brif allbynnau prosiect Bwrlwm yw sefydlu Clwb Ynni Lleol yn y dref - drwy gysylltu cynhyrchwyr ynni adnewyddadwy lleol gyda defnyddwyr lleol, a thrwy hynny, sicrhau pris tecach i ddefnyddwyr a chynhyrchwyr. Ar wahân i anelu tuag at ddatblygu a peilota Clwb Ynni Lleol, mae'r prosiect Bwrlwm hefyd yn gobeithio mynd cam ymhellach trwy ddatblygu syniadau o gwmpas y prif thema hon. Bydd prosiect Bwrlwm yn anelu i annog a chefnogi mwy o brosiectau ynni adnewyddadwy lleol yn y dref a'r cyffiniau, drwy edrych yn benodol ar brosiectau wedi ei berchnogi'n lleol neu ar y cyd, lle mae ceisiadau cynllunio ar gael.

Mi fydd y Swyddog Datblygu hefyd yn cefnogi prosiectau hinsawdd, ynni ac economi gylchol leol (e.e. Clwb Ceir Dinefwr a Chaffi Trwsio Llanymddyfri, prosiectau tyfu bwyd lleol, diogelwch a datblygiad o fioamrywiaeth a gofodau gwyrdd, a'r berllan gymunedol) a chefnogi syniadau eraill sydd yn cael ei mynegi'n lleol. Bydd prosiect Bwrlwm yn cael ei lywio gan y grŵp cymunedol lleol 'Criw Amgylchedd Llanymddyfri' (CALl) i helpu'r gymuned leol i fod yn fwy ymwybodol o faterion hinsawdd, ynni ac amgylcheddol trwy gynnal cyfres o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag ynni a hinsawdd. Bydd y digwyddiadau yma yn cynnwys sesiynau galw mewn ynglŷn ag effeithlonrwydd ynni ynghyd ag ymweliadau safle astudiaeth achos ble mae cymunedau yn darganfod gweithred leol i frwydro yn erbyn newid hinsawdd a chostau ynni, a trwy wneud hynny yn bywiogi eu cymunedau.

SWYDD-DDISGRIFIAD A MANYLDEB PERSON

Mae Ynni Sir Gâr yn edrych am unigolyn trefnus, creadigol a brwdfrydig fydd yn arwain ar ddatblygu amserlen a digwyddiadau Bwrlwm. Rydym yn chwilio am berson sydd â chwilfrydedd am weithio yn y maes ynni cymunedol i daclo newid hinsawdd, datgarboneiddio a chryfhau gwydnwch cymunedau'r sir. Byddwn yn cefnogi syniadau gwreiddiol cyflogai er mwyn iddynt gael y cyfle i weithredu'n greadigol yn y maes hwn.

Rydym yn edrych am berson sydd â phrofiad o ddatblygu a rhedeg digwyddiadau cymunedol a gweithio yn gadarnhaol ag eraill er mwyn cyrraedd nod y prosiect. Byddwn yn disgwyl fod yr unigolyn yma â dealltwriaeth gref o herion newid hinsawdd a sut mae'r themâu sy'n cyfrannu tuag at yr her;

megis ynni, natur, pobol ac economi, yn cyd-blethu. Byddai gwybodaeth ynglŷn â'r system ynni presennol a materion effeithlonrwydd ynni yn ddymunol iawn, ynghyd ac ymwybyddiaeth o brosiectau ynni cymunedol. Byddai ymwybyddiaeth o grwpiau cymunedol lleol i Lanymddyfri a'r cylch hefyd o fantais (ond bydd cefnogaeth ar gael i gyfarwyddo â'r grwpiau ac yr ardal os nad).

Bydd y Swyddog Datblygu yn gyfrifol am baratoi cyfres o ddigwyddiad yn Llanymddyfri dros gyfnod o 11 mis (gyda chefnogaeth ac arweiniad gan dîm Ynni Sir Gâr a grŵp CALI). Disgwylir felly person trefnus a chydwybodol er mwyn paratoi'r gyfres o weithgarwch yma. Bydd gan yr unigolyn llwyddiannus angerdd tuag at rymuso cymunedau gwledig Llanymddyfri a'r dalgylch, trwy godi ymwybyddiaeth a chreu dinasyddiaeth wybodus am faterion yn ymwneud a newid hinsawdd a sut i weithredu drostynt yn lleol.

Mae prosiect Bwrlwm yn anelu i gyfuno materion hinsawdd (am ynni, economi gylchol, bioamrywiaeth, natur, diwylliant) o dan un faner gan gyfrannu at adfywiad a chynaliadwyedd dref Llanymddyfri a'r ardal. Mae'r gallu i gyfathrebu o gwmpas y materion yma, ac i gyfathrebu yn greadigol er mwyn denu cyfranwyr i'r prosiect yn hanfodol.

PRIF DDYLETSWYDDAU

- Creu map o gynhyrchwyr ynni adnewyddadwy lleol (mae'r gwaith yma eisoes wedi dechrau - ond angen ei ddiweddaru). Bydd hyn yn cynnwys adnabod lleoliadau sydd â photensial i ymgorffori technoleg neu brosiectau ynni adnewyddadwy.
- Gweithio gyda chymunedau lleol (o fewn 10 milltir i Lanymddyfri) i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy posibl. Gall hyn gynnwys eu helpu i gael mynediad i gefnogaeth bellach genedlaethol sydd ar gael.
- Paratoi ymweliad astudiaeth achos a gweithgareddau ynni cymunedol, er mwyn i'r gymuned leol deall mwy am bosibiliadau y mae'r sector ynni cymunedol yn ei gynnig.
- Trefnu cyfres o ddigwyddiadau yn arwain lan at greu Clwb Ynni Lleol yn Llanymddyfri.
- Ymgysylltu a chreu cysylltiad â chymdeithasau a grwpiau lleol fydd yn cymryd rhan yng nghyfres o ddigwyddiadau Bwrlwm.
- Cefnogi gwirfoddolwyr Criw Amgylchedd Llanymddyfri gyda'r prosiectau cymunedol sydd eisoes ar droed (Y Caffi Trwsio, Clwb Ceir Dinefwr ayyb)
- I sicrhau fod prosiect Bwrlwm yn cael ei weithredu yn hollol ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg)
- Cysylltu â sefydliadau partner i adnabod cyfleoedd i gydweithio.
- Codi proffil a chadw ymwybyddiaeth yn uchel am y prosiect trwy ddefnyddio'r cyfryngau traddodiadol, a chyfryngau cymdeithasol yn effeithiol (gan weithio gyda Swyddog Cyfathrebu a Chyswllt Cymunedol Ynni Sir Gâr).
- Creu adroddiad byr ar ddiwedd oes y prosiect, yn dempled i drefi eraill cael dysgu o brosiect Bwrlwm

ARALL

- Mynychu cyfarfodydd misol Criw Amgylchedd Llanymddyfri, er mwyn adrodd nôl ar ddatblygiadau a derbyn arweiniad.

- Helpu â thasgau ar draws y prosiect Bwrlwm yn ôl y gofyn a/neu dan gyfarwyddyd Ynni Sir Gâr
- Adnabod, ac adeiladu ar gryfderau beth sydd yn digwydd yn barod yn ein cymunedau.
- Cysylltu â grwpiau sydd o risg cael eu hanwybyddu/anghofio a'r rhai sy'n llai tebygol o ymgysylltu â gwaith cymunedol ac/neu amgylcheddol.
- Datblygu a chefnogi syniadau creadigol i ledaenu camau gweithredu newid hinsawdd ledled Llanymddyfri a'r cylch.
- Cynorthwyo datblygu cyfleoedd allweddol sy'n deillio o ddigwyddiadau Bwrlwm.

SGILIAU

- Trefnus iawn ac yn hunan cymhellol.
- Tystiolaeth o sgiliau cyfathrebu da, datblygu, rheoli a hyrwyddo prosiectau.
- Y gallu i gydweithio â phobol o bob math o gefndir ac ystod eang o fudiadau a mentrau.
- Buasai ymwybyddiaeth o'r sector ynni, effeithlonrwydd ynni ac ynni cymunedol yn fanteisiol.
- Buasai ychydig o ddealltwriaeth am sut i greu map syml o leoliadau gellir ei ddatblygu am brosiectau ynni yn fanteisiol.
- Mae sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol. Mae cefnogaeth i loywi iaith petai'r angen a chefnogaeth i dderbyn hyfforddiant ar faterion yn ymwneud ag ynni cymunedol, materion trawsnewid, cynaliadwyedd ac economi gylchol.
- Sgiliau ysgrifennu cryf, a phrofiad o ddrafftio a chynnig syniadau am ddatganiadau wasg, a'r gallu i ysgrifennu i gynulleidfaoedd gwahanol.
- Y gallu i drafod tasgau mewn modd hyblyg, gyda'r gallu i reoli nifer o flaenoriaethau mewn amgylchfyd prysur.
- Sgiliau TG, gan gynnwys Microsoft, Google, Canva (neu offer cynllunio tebyg).
- Sgiliau cyfathrebu da dros y cyfryngau cymdeithasol.

Y BROSES YMGEISIO

Rydym am glywed wrth bobol sydd yn rhannu gwerthoedd YSG ac sydd ag angerdd am weithio gyda chymunedau i daclo herion newid hinsawdd a chostau byw ar lefel leol. Rydym am berson sydd yn ymrwymedig i greu economi teg, lleol a chylchol ynghyd a datblygiad o brosiectau ynni adnewyddadwy er budd cymunedau Sir Gâr. Mae'r cyflogai delfrydol hefyd ag angerdd tuag at normaleiddio a chefnogi defnydd o'r Gymraeg. Mae Ynni Sir Gâr yn ymrwymedig i fewnblannu Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol ym mhopeth rydym yn ei wneud, a bydd y cyflogai arfaethedig yn cyfrannu tuag at sicrhau hyn fel rhan o'n holl waith.

Er mwyn neud cais, anfonwch eich CV ac un dudalen o lythyr eglurhaol i esbonio pam eich bod yn neud cais am y rôl hon a'r sgiliau rydych yn gallu ei gyfrannu i brosiect Bwrlwm. Os bod gyda chi unrhyw gwestiynau pellach ynglŷn â'r swydd neu am y broses ymgeisio, peidiwch ag oedi i gysylltu (manylion cyswllt isod).

Anfonwch eich ceisiadau i Gydlynydd Ynni Sir Gâr, Sioned Haf: sioned@ynnisirgar.org / 07529901523.

Y dyddiad cau am geisiadau yw: **5yh, Dydd Gwener, 6ed o Hydref**

Cyfweliadau: **13eg o Hydref**

Rydym yn cadw'r hawl i gau'r swydd wag yn gynnar os ein bod yn derbyn ceisiadau digonol am y rôl. Felly, os eich bod â diddordeb, anfonwch eich cais cyn gynted â fo phosib.

Mae Ynni Sir Gâr yn cydnabod buddion positif amrywiaeth, yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn herio gwahaniaethu. Rydym yn croesawi ac yn annog ceisiadau swydd gan bobol o bob cefndir. Mae YSG yn gyflogwr Tâl Byw ac yn cefnogi gweithio'n hyblyg ac wythnos gweithio ar delerau 4 diwrnod. Bydd rhannu swydd hefyd yn cael ei hystyried go gyfer y rôl.

Cafodd y prosiect yma ei chyd-ariannu gan lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.